

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 5 Rhif 11

Yn rhad ac am ddim

Chwefror 2025



Ein Cyngerdd Carolau

gan Rob Evans

Dydw i ddim yn hollol siŵr pryd nes i ymuno â'r gwasanaeth Cymraeg yn eglwys Sant Iago, Abertawe ond mae o leiaf deg mlynedd wedi mynd heibio erbyn hyn. Ar y dechrau roedd pethau'n edrych yn iawn ond bob blwyddyn roedd rhywun yn ein gadael ni ac yn sydyn dach chi'n sylweddoli bod chi wedi cyrraedd lle ble mae rhaid i chi gael gwaed newydd. Ond sut? Does dim ffordd hawdd.

Wedyn meddyliais am ein profiad efo'r grŵp Cymraeg yn Newton, rhywsut roedd llawer o Gymry Cymraeg wedi ymuno, llawer mwy na'r dysgwyr i ddweud y gwir. Dros amser sylweddolais pam – roedd gymaint yn yr ardal wedi colli cysylltiad â'r iaith ac yn awyddus i ail-gysylltu. Ac os yw hyn yn wir mewn un ardal mae'n debyg iawn i fod yn wir ym mhob ardal o Abertawe a thebyg iawn Cymru gyfan.

Beth am gael baner ar y reilen tu allan i ddweud bod gwasanaeth Cymraeg ar gael? Syml, rhad a siŵr o fod yn effeithiol. Ond na, doedd y cyngor ddim am gael baneri parhaol tu allan i'r eglwys. Mi oedd hysbyseb am ein gwasanaeth ar yr hysbysfwrdd tu ôl i'r reilen ond roedd yn llawer uwch na'r pafin a doedd neb yn ei weld. Mae'n rhwystredig iawn cael problem a dim syniad sut i'w ddatrys!

Ond yn sydyn – beth am gael gwasanaeth Carolau – yn Gymraeg wrth gwrs?

Siaradais efo'r ddau ficer a chael ymateb cadarnhaol. Y nod oedd llenwi'r eglwys efo Gymry Cymraeg a dysgwyr, cael plant o un o'r ysgolion i'n diddanu a hefyd rhywun proffesiynol. Fel mae'n digwydd mae David Owen Lewis, baritone ac efo Opera North gynt, yn aelod o'n grŵp yn Newton. Roedd o yng

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

nghyfarfod gyntaf y tymor o Gymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt ac es ato a gofyn a fysai'n hapus i'n helpu. Doedd dim angen ofyn dwywaith a dw i'n ddiolchgar iawn iddo. Roedd y parchedig John Walters, sydd yn cynnal ein gwasanaeth Cymraeg, wedi cysylltu ag Ysgol Gyfun Bryntawe ac roedden nhw'n hapus i ddanfôn eu côr o ferched ac, yn sydyn, roedden ni ar ein ffordd.

Y peth nesaf oedd sicrhau cynulleidfa a chysylltais efo bob grŵp Cymraeg roeddwn i'n gallu meddwl amdano, a chodi baner, dros dro, ar y reilen tu allan.

Roedd y noson wedi cyrraedd o'r diwedd ac o'n i yn yr eglwys hanner awr cyn y dechrau. O fewn chwarter awr roedd nifer o bobl wedi cyrraedd a'r seddi yn dechrau llenwi, roedd popeth yn edrych yn addawol.

Aeth y noson yn arbennig o dda efo lleisiau hyderus Côr Merched Bryntawe yn ein swyno ni o'r llwyfan. Llais cryf David Owen Lewis efo Alun Tregelles Williams yn cyfeilio yn llenwi'r eglwys. A'r gynulleidfa? Yn amlwg roedden nhw wrth eu boddau ac yn canu'n iach!

Rhwng hyn oll roedd aelodau ein cynulleidfa ni yn darllen straeon y Geni o'r chwilio am lety hyd at y Gwŷr Doeth yn cyrraedd efo'u hanrhegion.

Hyn i gyd dan ofal meistrolgar y Parchedig John Walters sydd, er ei fod wedi ymddeol erbyn hyn, yn parhau i edrych ar ein holau yn ein gwasanaeth Cymraeg.

Ymunwch â ni – dyn ni'n cyfarfod am 9.00 ar y 1af, 3ydd a'r 5ed Sul y mis, Eglwys Sant Iago, Walter Road., Abertawe. Byddech yn sicr o gael croeso.

Cofiwch

Gwasanaeth Gymraeg

Yn eglwys Sant Iago, Walter Road,
Abertawe

ar y 1af, 3ydd a'r 5ed Sul y mis am
9.00 yb

Croeso mawr i chi!

Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt

Rhaglen 2024/25

17 Chwefror, 2025

Dr Hannah Sams:

Rhoi Llwyfan i Leisiau'r Ifanc

17 Mawrth, 2025

Don Williams:

Meddygon Myddfai

14 Ebrill, 2025

Catrin Stevens:

Y Deiseb Heddwch

19 Mai, 2025

Brian Davies:

Pwy yw Herbert?

16 Mehefin, 2025 -- **Côr Tŷ Tawe**

Cynhelir cyfarfodydd yn Neuadd
Murton am 7 o'r gloch.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
Wendy Davies (07814 287049)

Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt

Rhywle arall i chi gael croeso!

Dewch i wrando ar bobl difyr yn
siarad a chael paned a sgwrs.

Mae llawer o'r aelodau'n ddysgwyr!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



GM Notebooks

Mae GM Notebooks yn falch o gyhoeddi llwyddiant eu digwyddiad cyntaf 'Cymraeg a Phaned', menter gyffrous a ddibenna i ddod â dysgwyr Cymraeg at ei gilydd o bob cwr o'r byd. Trefnwyd y sesiwn rhad ac am ddim gan Gwilym, perchennog GM Notebooks ac ymgeisydd 18 oed sy'n astudio Cymraeg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Caerdydd, a ddechreuodd y menter i gefnogi dysgwyr eraill i ymarfer Cymraeg mewn lleoliad anffurfiol.

Cafodd y sesiwn 15 o ddysgwyr annwyl i ymuno â'r alwad rhithwir o bob rhan o'r byd, gyda'r mwyafrif ohonynt yn dod o Gymru, a chroesawyd dysgwyr eraill o'r Unol Daleithiau hefyd. Mae 'Cymraeg a Phaned' yn cynnig cyfle i ddysgwyr sgwrsio'n Gymraeg gyda'i gilydd, gan dorri'r rhwystrau ac darparu amgylchedd cynnes a chefnogol.

"Dechreuais GM Notebooks gyda'r nod o helpu eraill ar eu taith iaith Gymraeg, ac rwy'n falch iawn o weld y menter hon yn cael ymateb mor frwd," meddai Gwilym. "Roedd yn wych gweld pobl yn cysylltu, yn ymarfer eu Cymraeg,

ac efallai'n gwneud ffrindiau newydd o wahanol rannau o'r byd."

Mae'r menter yn hollol am ddim, gan ei gwneud yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'ch lefel o Gymraeg. P'un a ydych yn dechrau neu'n fwy datblygedig, mae 'Cymraeg a Phaned' yn y lle perffaith i siarad yn Gymraeg heb unrhyw bwysau.

I ddysgwyr sydd am ymuno â'r sesiwn nesaf, mae Gwilym yn gwahodd chi i bleidleisio ar ddyddiad sy'n gweithio'n well i chi trwy'r ddolen ganlynol: <https://calendly.com/d/crbw-shn-2f5/cymraeg-a-phaned-2-gm-notebooks>

I gael mwy o wybodaeth am GM Notebooks a beth rydyn ni'n wneud, ewch i www.gmnotebooks.co.uk

For press inquiries

Gwilym Morgan

Founder, GM Notebooks

Email: gmnotebooks@outlook.com

Website: www.gmnotebooks.co.uk

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Carolyn Evans

Ces i Nadolig hyfryd gyda fy nheulu. Roedd fy mab hynaf adref o'r brifysgol ar ôl tri mis i ffwrdd. Roedd yn hyfryd i fod gyda'n gilydd a chwrdd â ffrindiau.

Ar ôl Nadolig, hedfanon ni i Madeira a gwneud llawer o gerdded. Nos Galan yn Madeira yw'r gorau yn y byd. Mae llawer o longau mordaith yn dod i fewn i'r borthladd i weld y tân gwyllt. Mae nhw'n ysblennydd.

Mae'r tymheredd yn hyfryd trwy gydol y flwyddyn felly mae mor braf i ddianc rhag yr oerfel.

Sally Williams

Beth!! Ysgrifennu yn Gymraeg dros amser Nadolig, dim gobaith caneri !! Ac mae hi'n rhy oer, rhy wlyb, rhy erchyll, rhy bopeth i dreulio amser y tu fas.

Achos mae'n erchyll, baswn i'n gallu gwneud fy ngwaith cartref, ynte? Ond, na faswn!! Nadolig yw amser am sbri, dim amser i wneud blwmin gwaith cartref!

Baswn i'n gallu ymarfer, neu adolygu gramadeg Cymraeg, rheolau treiglo, lluosogi, pethau bendigedig fel' na.....ond na, dw i ddim yn meddwl !!

Basech chi'n meddwl mwy ohonof i taswn i'n gwneud fy ngwaith cartref? Basai'r dosbarth yn dweud 'grêt' taswn i'n ysgrifennu rhywbeth?... Na fasech !! Basech chi'n chwerthin amdanaf fi siŵr o fod.

Dylwn i ysgrifennu rhywbeth nawr, ar unwaith....ond alla i ddim. Dw wedi cael llond bol o Gymraeg!

Yna ac yn ôl, mewn diwrnod

gan Dewi ap Dafydd

Dw i'n byw yn Swydd Efrog, yn Lloegr (neu, fel dw i'n hoffi dweud, 'Teyrnas Elmet o gwmpas dinas hynafol Efrog yn yr Hen Ogledd'), mae Cymru yn gorwedd nid yn unig dros y ffin ond hefyd ochr arall y Penwynion. Weithiau, mae hi'n ymddangos yn bell i ffwrdd, yn enwedig pan mae hi'n bwrw glaw neu eira, neu yn niwlog. Beth bynnag, dyn ni'n teithio, fy ngwraig a finau, i Gymru yn aml, ar gyfer penwythnosau neu am lond llaw o ddyddiau. Ond, hyd at Nadolig 2024 dyn ni erioed wedi gwneud y daith mewn un diwrnod yn unig. Sef, draw i Gymru o adra ac wedyn yn ôl o fewn diwrnod. Y 'Dolig 'ma, gwnaethon ni hyn o'r diwedd!

Dyma ein hantur fach ni. Gadael y tŷ am chwarter i chwech yn y bore, i lawr yr M62, gyda chwmni Radio Cymru wrth gwrs, a gyda thipyn o doriad yng Ngwasanaethau Caer ar yr M54 am tua hanner awr wedi saith. Toriad byr am goffi a thipyn o ddarllen yn y Gymraeg i baratoi ein meddyliau am y diwrnod. Ac wedyn, i Gymru, yn pasio'r arwydd sy'n dweud 'Croeso i Gymru' ar y A55 jyst cyn cyffordd 36A. Yn syth i'r Wyddgrug, tref hyfryd lle mae'r caffis ar agor yn y bore a lle roeddwn ni wedi trefnu i gwrdd â ffrindiau Cymraeg yn y dref. Amser gwych iawn gyda'n ffrindiau ac wedyn, ta-ta Cymru - yn ôl dros y ffin. Ond dim yn ôl i Loegr eto. Apwyntiad gyda ffrind arall sy'n byw yng Nghaer. Tipyn o sgwrs, tipyn o ginio, cwmni da, chwerthin a cherdyn Nadolig.

Ac wedyn, mynd adref. Roedd yr M62 yn glir a chyn pedwar o'r gloch, dyma ni, yn ôl adref. Tua deg awr o daith, llawn o brofiad Cymreig a Chymraeg. Fel dwedais i, dyma ein tro cyntaf i deithio a dychwelyd mewn dydd ac roedd hi'n llwyddiant mawr. Dyn ni'n edrych ymlaen at ailwneud yr holl beth yn fuan. Mae Cymru yn agosaf nag o'n i'n meddwl!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Grŵp Dysgwyr Bromyard

gan Mike Williams

Mae'n anodd dysgu ac ymarfer yr iaith Cymraeg pan dych chi'n byw yng nghanol cefn gwlad. Yn enwedig yng nghanol cefn gwlad Lloegr.

Ychydig flynyddoedd yn ôl nes i symud gyda fy ngwraig i bentref bach ger Bromyard, ar ffin Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon. Dyn ni'n byw mewn bwthyn rhwng Henffordd, Caerwrangon a Moelfryn.

Dechreuais i fy nhaith dysgu Cymraeg efo Say Something in Welsh a ro'n i'n synnu ac wrth fy modd i ddarganfod bod grŵp o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cwrdd yn y llyfrgell yn Moelfryn. Maen nhw'n cwrdd bob dydd Iau am hanner dydd yn y caffi, i lawr y grisiau. Ac maen nhw'n grŵp hyfryd iawn. Mae rhai ohonyn nhw yn rhugl yn Gymraeg ac eraill yn ddysgwyr ar wahanol lefelau.

Yr unig broblem i fi oedd y pellter rhwng fy nghartref a Moelfryn. Mae hi dros ugain milltir i Moelfryn ac ugain arall yn ôl wrth gwrs. Ar adegau mae'r ffyrdd yn gul ac mae'r traffig yn Moelfryn yn ofnadwy. Roedd y daith yn cymryd pedwar deg pum munud bob ffordd. Hefyd, yn anfoddus mae pethau eraill gyda fi i wneud ac yn amyl ar ddydd Iau.

Faint yn haws byddai hi, ro'n i'n meddwl, os gallwn i gael grŵp yn fwy agos? Efallai, gallwn i ddechrau grŵp yn Bromyard, ond pwy fyddai'n ymuno? Oes unrhyw ddysgwyr Cymraeg eraill gerllaw? Wedi'r cyfan, mae fy ngwraig yn siarad Cymraeg, felly bydd gyda ni o leiaf ddau aelod !

Wedyn, y llynedd gwelais i neges ar Facebook yn gofyn a oedd unrhyw ddysgwyr neu siaradwyr Cymraeg eisiau ymuno â grŵp sgwrsio Cymraeg yn Bromyard. Roedd sawl sylw cadarnhaol mewn ymateb. Dim ond pum milltir i ffwrdd yw Bromyard. Dw i'n gallu gyrru yno mewn deg munud.

Felly ym mis Tachwedd y llynedd dechreuodd criw Cymraeg Bromyard cyfarfod. Mae grŵp Whats Ap gyda ni. Ar hyn o bryd mae gyda ni saith aelod ac mae pawb yn awyddus ac yn frwdfrydig. Mae rhai pobl yn gwneud cyrsiau Dysgu Cymraeg via Zoom. Bydd croeso mawr i

chi os hoffech ymuno â ni yn y Topsy Toad yn y brif stryd yn Bromyard am un ar ddeg o'r gloch pob dydd Mawrth.

Y newyddion da wrth gwrs yw - bellach mae gyda ni ddau grŵp Cymraeg yn ein cornel fach o Loegr.

Croeso Cai i'r Byd

gan Myra Rowlands



Croesawon Cai i'r byd yn y wythnos gyntaf o 2025. Cai ydy fy nai cyntaf, a dwi wedi dwli arno yn barod, ac wrth fy modd yn gyfan gwbl! Achlysur i ddathlu go iawn yn wir!

Cefais fy magu yng nghanolbarth Cymru, a symudais i Leeds, Swydd Efrog, i fynd i'r brifysgol. Dwi dal yma, a wnaeth fy mrawd yr un beth, ond yn Lerpwl. Mae ein chwaer yn byw yn yr Alban. Ni siaradon Gymraeg adref yn tyfu i fyny, ond roedd bywyd ysgol yn hollol Cymraeg i ni. Dyn ni'n rhyddlyd ofnadwy rŵan yn anffodus!

Ers blwyddyn neu ddau mae'r dymuniad o ailgysylltu gyda'r hen iaith wedi bod yn tyfu, ac ymunwn â Chymdeithas Cymraeg Leeds a'r Cylch yn 2024. Dwi wedi bod yn mwynhau cwrdd ag eraill sydd â chysylltiad â Chymru, a dechreuais siarad Cymraeg yn fwy aml. Dwi wedi bod yn gwrando ar Radio Cymru yn rheolaidd, ac yn mwynhau'r rhaglenni a'r cyflwynwyr gwahanol. Yn ddiweddar, un o'm hoff raglenni ydy Caniadaeth y Cysegr, lle dwi'n ceisio darganfod y geiriau ar y we i gydganu efo'r emynau! (Fel oedd fy Nhaid erstalwm! Ond doedd ddim angen chwilio'r we am y geiriau iddo fe.)

Mae'r radio wedi cyflwyno cerddoriaeth newydd i mi hefyd, a dwi wedi bod yn gwrando ar lawer mwy o gerddoriaeth werin, fel Cynefin, The Gentle Good, Gwilym Bowen Rhys, Cerys Hafanna a Gwenno. Cefais syndod y flwyddyn yma ar y Spotify Wrapped a cymaint o ganeuon gwerin!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Rwy'n lwcus yn Leeds, mae hyrwyddwr cerddoriaeth newydd o'r enw Ffin yn dod â cherddoriaeth o Gymru i Leeds!

Dwi wedi bod yn casglu llyfrau Cymraeg i ddarllen i'r baban bach del, ac yn gobeithio siarad yn hollol Gymraeg iddo er mwyn rhoi cyfle iddo glywed a dod yn gyfarwydd â'r iaith.

Mae fy mrawd yn bwriadu magu'r baban efo gwybodaeth o'r iaith Cymraeg, a dwi'n awyddus i gefnogi Cymro arall! Mae'r dreftadaeth yn bwysig iawn i mi, ac wedi siapio pwy ydw i heddiw. Iaith yw un rhan o'r stori, a gobeithio bydd yr hedyn o ddiddordeb yn ei hanes yn tyfu gyda fe.

Hyd yn oed heb fyw yng Nghymru ar y foment, sgwn i a ydy'n bosib rhoi balchder a chariad o Gymru i'r hogyn bach newydd yn Lloegr bell?

Arferion Gwerin Cymru

Y Ceffyl Pren

gan Martin Jones

Mewn rhifyn blaenorol o'r Wennol, ysgrifennais am arferion priodasau Cymru. Roedd e'n bwysig i'r gymdeithas wledig a gynhaliodd yr arferion hyn sicrhau bod y pâr priod yn byw'n unol â rhyw safonau. Felly roedd hefyd arferion a fyddai'n cael eu dilyn petasai'r pâr priod yn methu byw yn ôl disgwyl cymdeithas. O blith yr arferion hyn, y mwyaf adnabyddus ydy'r ceffyl pren. Yn y bôn, byddai hyn yn golygu y byddai delw, o bwy bynnag a oedd wedi mynd yn groes i'r cod moesol, yn cael ei gario ar bolyn pren neu ar gadair wedi'i gosod ar ysgol. Wedyn bydden nhw'n gorymdeithio ac yn paredio y tu allan i'w dŷ (neu i'w thŷ) i gyfeiliant "cerddoriaeth garw" - sef curo sosbenni ac offer tŷ eraill.

Wrth gwrs, fel pob arfer, roedd amrywiadau o le i le. Er enghraifft, yn Llanfyllin yn Sir Drefaldwyn, petasai bâr priod yn ffraeo ar goedd, byddai'r ceffyl pren yn cael ei gludo i'w drws a byddai'r rhigwm a ganlyn (ar ffurf cwestiwn ac ateb) yn cael ei adrodd.

'Am bwy'r wyt ti'n marchogaeth?'

'Am ddeuddyn o'r gymdogaeth.'

'Pwy yw'r rheiny, Gymro?'

'Wil ac Ali Beuno.'

'A ydyw Ali'n curo'n arw?'

'Mae hi bron â'i ladd e'n farw,

Rhwng y ferch a hithau

Mae'r gŵr yn las o'i gleisiau.'

Yn Sir Geredigion, dim ond dynion oedd yn agored i'r ceffyl pren, tra yn Sir Fynwy, roedd pethau dipyn yn wahanol. Pan oedd gŵr wedi bod yn curo'i wraig, cafodd gwellt ei glymu o amgylch clwyd y tŷ fel y gallai fe guro'r gwellt yn hytrach na'i wraig. Yng Nghynwyl Elfed yn Sir Gar, byddai llys ffug yn cael ei gynnal, a byddai delw'r tramgwyddwr yn sefyll ei brawf gerbron "barnwr" o flaen torf fawr cyn cael ei losgi.

Mewn achosion o odineb, gallai'r gweithredu fod yn fwy trasig. Mewn rhai lleoedd, byddai'r pâr euog yn cael eu clymu cefn wrth gefn ar y ceffyl pren cyn cael eu paredio trwy'r pentref wrth i bobl daflu wyau drwg atyn nhw. Yn Ynys Môn, cario'r pâr wedi'u dyfarnu'n euog yn noethlymun ar ysgol oedd yr arfer.

Yn ogystal, cafodd y ceffyl pren ei ddefnyddio yn erbyn tystion oedd wedi rhoi tystiolaeth mewn achosion llys amhoblogaidd, rhywbeth ddigwyddodd yn aml yn ystod Terfysgoedd Rebeca rhwng 1838 a 1843.

Ym 1839, tynnodd adroddiad y Llywodraeth, ynglŷn â sefydlu heddlu sylw at y ffaith, bod helbul cysylltiedig â'r ceffyl pren yn dod yn fwy cyffredin, ac o ganlyniad i sefydlu heddlu effeithlon daeth y ceffyl pren yn fwyfwy anghyffredin.

A oes rywbeth fel hyn yn digwydd yn eich ardal chi?


*Gadewch i ni wybod a helpu fi i lenwi'r
bwlch yma!*



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Coginio yn Gymraeg

gan Margo Aderyn



Ym mis Tachwedd es i'r Ffair Fwyd yn Llanelwedd, roeddwn i'n gobeithio am gyfle i siarad Cymraeg. Roedd llawer o stondinau ond doedd hi dim yn glir os oedd y gwerthwyr yn siarad Cymraeg. Felly pan dw i'n barod i ddechrau sgwrs dwi'n dweud rhywbeth fel "Prynawn da" a dw i'n gofyn i'r gwerthwyr "Ydych chi'n siarad Cymraeg?" Os dw i'n gweld eu hwynebâu'n mynd yn wag, dw i'n newid iaith. Hawdd!

Ces i'r pleser o esbonio sawl gwaith i'r gwerthwyr Saesneg beth yn union ddwedais i, ac yna gofynnais iddyn nhw pam nad ydyn nhw'n dysgu Cymraeg tra'n byw yn yr ardal. Llawer gwaith roedd y sgwrs yn ddiddorol.

Ro'n i'n mwynhau blasu caws a seidr lleol. Roedd hefyd ddewis mawr o fêl. Doeddwn i erioed wedi meddwl am gymysgu mêl gyda sbeisys amrywiol - ond dyma oedd mêl gyda cumin, cardamon, pupur a phaprica, a phwy a wŷr pa sbeisys eraill. Roedd hyd yn oed jamiau gyda sbeisys! Am ddiddorol!

Yng nghornel y Neuadd roedd bwrdd hir Nerys Howell sy'n adnabyddus i wylwyr rhaglenni S4c. Sylwais ar ryw beth defnyddiol yn fy nhaith 'Cymraeg': llyfrau coginio dwyieithog! Ymarferion Cymraeg da gyda chyfieithiad Saesneg a llawer o luniau. Geirfa gyfoethog am fwyd a choginio. Arwyddodd Nerys Howell ei llyfrau i fi a dwi'n mwynhau darllen am fwyd Cymreig traddodiadol a choginio wrth ddilyn ryseitiai yn Gymraeg.

Mae CYMRU AR BLÂT yn llawn ryseitiai traddodiadol a chyfoes o gynnyrch Cymreig - ond dim ond ychydig o ryseitiai i ginio ar gyfer llysieuwyr sydd yma, a dweud y gwir. Beth bynnag, mae llawer o ryseitiai diddorol i mi, ee pwdin Eryri, wyau Ynys Môn, selsig Morgannwg,

cordial blodau ysgawen neu ddiod danadl poethion a llawer mwy. Mae rysâit am gwrw bach traddodiadol sydd angen dŵr, blodau dant y llew, dail danadl poethion, sinsir, riwbob, cyrens, siwgr coch Demerara ac 1 owns o furum, felly bydd rhaid wneud cwrw cartref Cymreig un diwrnod.

Mae Cywain - Ryseitiai o'r Ardd yn llawn ryseitiai i llysieuwyr - ond mae rhai ohonyn nhw gyda chig hefyd. Yn bersonol, fydda i ddim yn gwneud salad colomen, oren a betys ond yn bendant dw i'n mynd i drïo pesto topiau moron neu pakora kêl Ar gyfer y nhw sy'n hoffi pysgod, mae cacennau mecryll neu Swper Macrell Ceinewydd sy'n debyg i Swper Penwaig Abergwaun.



Hyfryd oedd sgwrsio gyda Nerys Howell. Dw i wedi rhoi blas o'i llyfrau hi i chi. Dwi'n hapus i'w cael ei llyfrau ar fy silff. Rŵan, dwi angen gardd fawr i dyfu'r llysiau i gyd!

Traddodiadau Nadolig

Y Fari Lwyd

gan Ben Jones

Roedd yn ddiddorol darllen am y Nadolig mewn sawl man yn Y Wennol yn ddiweddar, ond synnais i weld dim byd am arferiad Cymreig y Fari Lwyd. Efallai ei fod wedi cael ei ysgrifennu dro arall o'r blaen?

Beth bynnag, dyma traddodiad Cymreig sy'n ddiddorol iawn i mi, oherwydd dyn ni'n gwneud rhywbeth tebyg yn ein pentref yn Nwyrain Caint. Mae e'n cael ei alw'n "Hoodening". Dyn ni'n teithio o amgylch tafarndai a thai preifat yr ardal yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig, gyda'n pen ceffyl pren.

Dyn ni'n perfformio drama dyn ni'n ei hysgrifennu o'r newydd bob blwyddyn, yna dyn ni'n canu caneuon a charolau. Cannoedd o flynyddoedd yn ôl, roedd pobl yn ei wneud er mwyn derbyn arian yn ystod y gaeaf, oherwydd eu bod yn dlawd iawn, ond rŵan, dyn ni'n casglu arian ar gyfer elusen leol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mae un aelod o'n tîm wedi bod yn gwneud hyn ers dros hanner can mlynedd. Mae'n chwarae hen wraig. Fi yw'r unig un sy'n gallu chwarae offeryn, felly fi yw'r cerddor (ar y ffidil). Mae yna hefyd bachgen, wagenwr a ffermwr - ac wrth gwrs, y dyn sy'n chwarae'r ceffyl ei hun.

Yn wahanol i Mari Lwyd, dydyn ni ddim yn gwneud 'pwnco' (y gystadleuaeth farddoniaeth Gymraeg ar garreg drws), ond mae hi'n anodd sgwennu'r ddrama mewn rhigwm bob blwyddyn, a chofio ein llinellau. Dw'i wedi astudio arferion fel Y Fari Lwyd mewn gwledydd eraill, ond hyd yn hyn, dw'i ddim wedi ffeindio dim byd yn Y Wladfa na'r Ariannin. Ac er bod llawer o Gymry wedi dod i Ddwyrain Caint i weithio yn y meysydd glo, a rhai ohonyn nhw'n sefydlu corau meibion, dw'i ddim yn meddwl iddyn nhw'n ddod ag arferiad y Fari Lwyd. Mae'n debyg ei fod yn dod yn fwy poblogaidd yn ddiweddar yn ardal Cas-gwent, ac mae timau yn yr Unol Daleithiau ac Awstralia hefyd.

*Dach chi'n gwybod bod y Fari Lwyd fel bws?
Dach chi'n aros am oes a dim golwg. Yn sydyn
mae dwy yn cyrraedd ar yr un pryd!!*



Y Fari Lwyd

gan Martin Jones

Mae gan Gymru, fel gwledydd eraill, ei arferion Nadolig ei hun. Efallai taw un o'r arferion Cymreig enwocaf ydy'r Fari Lwyd, sef penglog ceffyl sy'n cael ei gludo gan barti o ddynion o ddrws i ddrws yn ystod tymor y Nadolig. Mae'r benglog, a'r dyn sy'n ei 'wisgo', wedi'u gorchuddio â lliain gwyn hir a rubanau a rhosedau arno fe. Mae'r llygaid wedi'u gwneud allan o boteli gwydr ac mae'r geg yn symud i fyny ac i lawr sy'n dod â'r holl beth yn fyw ac yn creu anifail eithaf brawychus. Yn ogystal â'r Fari gallai fod nifer o gymeriadau eraill yn y parti, gan gynnwys Pwnsh a Siwan, a'r Sarsiant, i ychwanegu at yr hwyl.

Byddai'r parti'n ymweld â phob tŷ a thafarn yn y pentref a chymryd rhan yn y pwnco, sef cystadleuaeth penillion (a oedd yn cynnwys llawer o dynnu coes) gyda'r trigolion. Gallai'r pwnco para dros awr cyn i un ochr roi'r ffidil yn y to, ac os colodd parti'r Fari, byddai'n rhaid iddyn nhw adael heb fynd i mewn i'r tŷ. Ond gan roedd pobl yn credu y byddai'r Fari'n dod â lwc dda i'r tŷ, does dim syndod y byddai'r Fari'n ennill fel arfer.

Unwaith tu mewn, byddai'r Fari'n rhedeg trwy'r tŷ yn creu hafoc wrth i arweinydd y parti esgus ceisio ei ffrwyno. Byddai aelodau'r parti'n chwarae cerddoriaeth ac yn diddanu trigolion y tŷ. Bydden nhw'n cael eu gwobrwyo â bwyd a diod, ac weithiau ag arian, cyn dod a'r ymweliad i ben â chân ffarwel traddodiadol.


Roedd Y Fari Lwyd yn ei hanterth yn Ne Cymru yn ystod y 19eg ganrif, ond ar ôl hynny dechreuodd ddod yn llai poblogaidd. Ar y naill law, roedd y gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn rhwystro pobl rhag ymateb i barti'r Fari, gan fyddai'r pwnco yn cael ei berfformio fel arfer yn Gymraeg. Ac ar y llaw arall roedd yr arferiad wedi dod yn gysylltiedig ag ymddygiad gwael a meddwdod - ac nid oedd hyn yn dderbyniol mewn cymdeithas lle oedd ddylanwad y capel mor gryf.

Beth bynnag, yn ddiweddar, mae wedi bod ton newydd o ddiddordeb yn y Fari ledled Cymru, ac mae'r traddodiad wedi'i ail-sefydlu mewn sawl ardal ar draws Cymru.

Y Geiriaduron yn fy Mywyd

1. Y Geiriadur yn fy Mhoked

gan Richard Cleaves




Pan oeddwn i'n dysgu Cymraeg am y tro cyntaf yn ôl yn y 1970au, doeddwn i ddim yn mynd i unrhyw le heb fy Ngeiriaduron. Roedd gen i'r Geiriadur Bach, The Welsh Pocket Dictionary gan Meurig Evans ac W. O Thomas. Myfyriwr oeddwn i ar y pryd ac yn byw ym

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mangor. Roedd y Geiriadur Bach yn mynd i mewn i boced fy siaced yn hawdd, ac roeddwn i'n ei ddefnyddio trwy'r amser. Roedd o'n wych! Ar ôl i mi ymddeol a dod yn ôl i Gymru, roeddwn i'n bwriadu defnyddio'r un geiriadur unwaith eto. Ond, roedd gen i broblem. Erbyn rŵan doeddwn i ddim yn medru darllen y geiriau! Roedden nhw mor fach!

Roedd rhaid i fi chwilio am eiriadur arall. Pa un oeddwn i'n mynd i ddewis? Erbyn rŵan dwi ddim yn gwisgo siaced yn aml; does dim cymaint o bocedi gen i. Ond, yn sydyn roedd gen i'r ateb! Beth am ddefnyddio'r ffôn? A dyna beth wnes i.



Wnes i lawr-lwytho'r Ap Geiriaduron. Mae mor hawdd i'w defnyddio! Mae gennych chi eiriadur Cymraeg-Saesneg, a hefyd Saesneg-Cymraeg. Geiriadur syml ydy o efo gair Cymraeg sydd yn cyfateb i'r gair Saesneg, neu'r ffordd arall. Cyhoeddwyd gan Brifysgol Bangor, cafodd y Geiriadur ei ddatblygu gan Dewi Bryn Jones. Dych chi'n medru defnyddio'r Ap Geiriaduron pan dych chi 'offline' ond os dych chi 'ar lein' un o'r pethau mwyaf diddorol am y Geiriadur yw'r ffaith mae o'n cynnwys geiriaduron eraill. Er enghraifft, Y Bywiadur, Cymdeithas Edward Llwyd. Os dych chi'n edrych i fyny'r gair 'wennol' dych chi'n ffeindio gair heb dreigladd meddal, gwennol, sef aderyn, 'swallow' a hefyd dych chi'n gweld llun y wennol efo ddolen i erthygl ar Wikipedia.

Mae'r Ap Geiriaduron yn gweithio fel geiriadur odlau hefyd! Os dych chi eisiau ffeindio rhyw air sy'n odli efo, e.e. geiriadur, dych chi'n medru chwilio am 'adur' a dych chi'n ffeindio lawer iawn o eiriau sy'n odli efo 'geiriadur'!

Wrth gwrs, dydy pawb ddim yn hoffi defnyddio ffôn symudol. Gofynnais i ffrindiau mewn bore coffi pa eiriadur maen nhw'n defnyddio. Roedd rhywun yn awgrymu, The Welsh Learner's Dictionary gan Heini Gruffudd. Mae mewn tri rhan: geiriadur Cymraeg-Saesneg, geiriadur Saesneg-Cymraeg a hefyd crynodeb bach o bwyntiau pwysig gramadegol; mae'n

cynnwys hefyd ymadroddion. Mae rhywun arall yn ein grŵp yn defnyddio'r Collins Spurrell Welsh Dictionary pocket edition. Mae'r un geiriadur ar gael dan enw Collins Gem Welsh Dictionary hefyd: unwaith eto mae gan y geiriadur yma canllaw ymarferol i ramadeg a llawer iawn o eiriau modern.

Ar gael i'ch ffonau symudol Android o Google Play Store, ac i'r iPhone o'r Apple App Store. Am ddim.

Ar gael yn eich siopau Cymreig lleol:

The Welsh Learner's Dictionary, Heini Gruffudd, Y Lolfa, 1998: £6.95.
Collins Spurrell Welsh Dictionary Pocket Edition, 5th Edition, 2017, HarperCollins, 2017: £8.99.
Collins Gem Welsh Dictionary, 4th Edition, HarperCollins, 2018: £5.99.
Y Geiriadur Bach - The Welsh Pocket Dictionary, Christopher Davies, 1959 (allan o brint).

BBC Cymru Wales

gan Liz Kelly

Ysgrifennais erthygl gwpl o fisoedd yn ôl yn siarad am sut mae gwylio operâu sebon yn gallu helpu chi ddysgu Cymraeg. Ond dw i'n meddwl na ddwedais sut mwynheais i'r straeon yn yr operâu sebon hefyd!

Beth bynnag, pan glywais i am y teithiau tu ôl i'r lleni penderfynais i i archeb tocynnau i ymweld â'r stiwdios. Roedd y teithiau yn dathlu 50 blynnyddoedd o Bobl y Cwm. Dw i ddim yn gwybod os maen nhw wedi agor y stiwdios i'r cyhoedd o'r blaen ond dw i'n gwybod fel arfer, dych chi ddim yn gallu ymweld â nhw.

Mewn ddigon o amser archebais i'r tocynnau am y daith o gwmpas y stiwdios ym Mae Teigr, Caerdydd, archebais hefyd lle i aros dros sawl noson. Wedyn, chwiliais i am rywbeth i wneud yn y bore, cyn y daith stiwdio. Mae llawer o bethau i wneud yng Nghaerdydd! Sylweddolais fod chi'n gallu mynd ar deithiau o gwmpas stiwdios BBC Cymru Wales. Do'n i ddim yn sylweddoli bryd hynny mai yng Nghaerdydd yw'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

unig gyfle i ymweld â stiwdios BBC nawr. Beth bynnag, es i i Gaerdydd am y penwythnos.

Y noson cyn y teithiau, sieciais y trenau - roedd hi'n benwythnos o "bws yn lle trê" - "er mwyn gwneud gwelliannau hanfodol" - felly sieciais y bysiau arferol - dim yn aml chwaith. Felly archebais i darsi hefyd er mwyn bod yn siŵr o gyrraedd mewn amser yn y bore.

Treuliwn ni awr a hanner yn stiwdios BBC yn y Sgwâr Canolog. Roedd 19 ar y daith. Ar ôl gwiriadau diogelwch (ein bagiau) a hongian cotiau, dechreuodd y daith yn y fynedfa gyda thri thywyswr cyfeillgar. Roedd cyflwyniad byr am sut roedd adeiladu mwyaf newydd y BBC wedi ei adeiladu gyda'r technoleg cynaliadwy diweddaraf. Maen nhw'n casglu dŵr glaw (ar wahân i'r glaw yn y fynedfa oedd yn gollwng o'r to ac oedd yn casglu mewn bwcedi!). Mae paneli solar ar y to sy'n cyflenwi ynni trydan i'r adeilad.

Nesaf aethon nhw â ni i stiwdio sy'n edrych mas dros y fynedfa enfawr - un o'r mwyaf yn y BBC. Maen nhw'n creu rhaglenni yno fel Crimewatch Live a rhaglenni chwaraeon. Esboniodd y tywyswyr sut maen nhw'n ffilmio pethau, gyda chamerau roboteg neu dim roboteg, a "thechnoleg flaengar gan gynnwys realiti estynedig". Esbonion nhw hefyd am sut mae'r cyflwynwyr yn darllen ei sgriptiau gyda'r peiriant awtociw.



Aethon ni nesaf i weld y stiwdio Dylan Thomas. Maen nhw'n recordio "audio" yma - fel drama neu podlediadau. Dyn nhw ddim yn eu galw'n recordiadau radio nawr achos mae pobl yn gwrando arnyn nhw ar ffônau symudol, ar sgriniau digidol ac ati yn gynnwys radio diwifr wrth gwrs.

Yn y stiwdio yma mae defnydd gwlan Cymraeg ar y waliau i stopio unrhyw atsain. Dych chi'n gallu clywed bod y sain yn hollol

wahanol yn stiwdio Dylan Thomas - dim ond y siaradwyr dych chi'n gallu clywed. Maen nhw'n ddefnyddio hanner o'r stiwdio gyda charped fel lle dan do a hanner heb garped i recordio sain fel yn yr awyr agor. Mae ystafell lan llofft gyda grisiau hefyd yn y stiwdio felly maen nhw'n gallu recordio sain o rywun yn cerdded lan a lawr y grisiau. Mae gwely yn yr ystafell lan llofft achos mae pobl yn siarad yn wahanol pan maen nhw'n gorwedd. Ar ôl y recordio, maen nhw'n ychwanegu'r effeithiau sain maen nhw eisiau - maen nhw'n adeiladu haenau o sain. Dw i'n siŵr ei fod yn gymhleth! Tybed beth fyddai Dylan Thomas wedi meddwl am y stiwdio?!



Aethon ni lan y grisiau i'r llawr stiwdios radio Cymru Wales. Mae sawl stiwdio radio wrth gwrs a

maen nhw'n darlledu yn fyw fel arfer, yn Saesneg ar BBC Wales ac yn Gymraeg ar BBC Cymru. Aethon ni i mewn i stiwdio wag a fawr le maen nhw'n gallu recordio gyda sawl pobl ar y pryd rownd bwrdd mawr, gydag un meic i bob un sedd - perffaith i raglenni chwaraeon. Maen nhw'n recordio rhaglenni eraill, fel "Composer of the week" ar Radio 3. Dych chi'n gweld sianelau BBC ar y sgriniau a hefyd y gloch ddigidol - mor bwysig iddyn nhw i drefnu eu rhaglenni yn berffaith! Dych chi'n gallu gweld o'r stiwdio i mewn i stiwdios eraill a hefyd ystafelloedd ble maen nhw'n cynhyrchu'r rhaglenni - gwylio'r lefelau sain a dechrau a stopio'r pethau rhwng y caneuon ac yn y blaen.



Aethon ni lan llofft eto i'r ystafell newyddion a'r stiwdio newyddion - mae cyflwynwr yn cyflwyno'r newyddion ar ei ben ei hunan gyda'r camera roboteg. Mae tîm graffeg mewn oriel yn dilyn bob eiliad ac ychwanegu ffilmiau, pethau realiti estynedig ac yn y blaen. Maen nhw'n cyflwyno'r Tywydd yn y stiwdio newyddion hefyd. Esboniodd y tîm er bod y cyflwynwr newyddion yn darllen o'r awtociw, dydy cyflwynwyr y tywydd ddim yn gwybod faint o amser sydd ar ôl iddyn nhw ac felly does dim

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

sgript ar yr awtociw – mae'n rhaid iddyn nhw wybod sut i dorri eu pynciau i ffitio mewn pryd. Dw i wedi clywed bod nhw'n adrodd y tywydd yn eithaf cyflym weithiau - dyna pam efallai?

Aethon ni i ben yr adeilad i weld pethau pwysig iddyn nhw - fel pethau eiconig Dr Who - y Tardis e.e.. Dyma ddiwedd y daith - mae'n parhau am awr a hanner ac mae'n ddiddorol iawn!

Byd Natur – mis Chwefror 2025

gan Patrick Soper

Collen yw un o'n coed collddail brodorol mwyaf cyffredin ac, er allan nhw dyfu yn goeden hyd at bron 40 troedfedd o uchder, maen nhw'n aros fel arfer fel llwyn yn ein perthi.

Gall coeden gyll gael ei choedlannu, gyda'i bôn wedi'i dorri i ffwrdd er mwyn annog i egin dyfu o foncyff y goeden. Byddai rhai o'r brigau wedi cael eu defnyddio blynnyddoedd yn ôl i sodro gwellt yn sownd pan oedd bwthyn yn cael ei doi â gwellt. Heddiw mae coedlannu yn fanteisiol o hyd oherwydd bod llw o eginau newydd yn golygu mwy o fioamrywiaeth, gyda chynffonau i amrywiaeth o fywyd gwyllt.



Mae blodau gwryw a benyw yn tyfu ar yr un goeden. Yn yr hydref pan

mae'r cynffonnau wyn bach gwryw yn ymddangos maen nhw'n fyrion ac yn wyrdd, ond gyda chynffonau y gwanwyn byddan nhw'n troi'n felyn ac yn tyfu i hyd at dair modfedd o hyd, yn hongian o'u brigau.



Mis Chwefror yw'r amser pan fydd y byd natur, yr ydym ni'n rhan ohono, yn ailddedro. Mae rhai o blanhigion sy'n dechrau tyfu wedi'u deillio o hadau, ac mae rhai eraill wedi'u dod o sborau.

Mae hedyn yn becyn sy'n cynnwys llysrith wedi'i ffrwythloni'r planhigyn aeddfed ynghyd â chyflenwad bach bach o faeth, wedi'i lapio mewn

haen amddiffynnol. Dyma barsel gyda digon o faeth i'r llysrith gynhyrchu edau denau o wraidd a fydd yn chwilio am ychydig o leithder; dechreuwa egin blanhigyn ddatblygu os bydd yn gallu dod o hyd i faethiad, ychydig o gynhesrwydd a thipyn o olau dydd.

Mae sbôr, mewn cyferbyniad, yn organedd



ungell syml yn ddim mwy na gronyn o lwch, nad arno angen cael ei ffrwythloni, ac nid oes ganddo gyflenwad o

faeth. Mae e'n dibynnu yn llwyr ar amgylcheddau llugoer ac yn llaith er mwyn datblygu. Mwy na thebyg y planhigion cyntaf i wladychu'r tir yn yr amserau cyn-hanesyddol oedd organeddau syml fel algâu, a oedd yn epilio drwy sborau.

Rhyw 500 miliwn o flynyddoedd yn ddiweddaraf mae rhedyn a phlanhigion syml eraill yn parhau i ddefnyddio sborau, ac felly nid oes angen iddyn nhw gynhyrchu blodau a denu peillwyr. Allai fod hynny'r rheswm pam mae'r planhigion syml hyn wedi gwladychu'r byd ac wedi goroesi am mor hir?

Taith Beicio o Bordeaux i Lyon ar hyd y Garonne a'r Rhone

Mehefin 2024



O Toulouse i Montclar-Lauragais

Dydd Mercher 12/06: 43 km

Cyn gadael Toulouse, dyn ni yn ymweld â'r 'Jardin des Plantes' ac wedyn eglwys gadeiriol gothig St Etienne, a adeiladwyd rhwng y 13eg a'r 17eg ganrif. Mae'n cynnwys beddrod Pierre Paul

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Riquet, tad y Canal du Midi, wedi ei eni yn Béziers ond wedi ei fabwysiadu gan Toulouse

Dysgwn ni hefyd fod yr canwr jazz Claude Nougaro wedi gadael ei ôl ar y ddinas gyda'i eiriau anfarwol.

Ymunwn ni â llwybr glas y gamlas gyda choed planwydden godidog ar ei hyd. Yn anffodus mae'r planwydden yn cal ei effeithio gan cancr ac mi fydd rhaid i'r coed cael eu torri. Mae cynllun ailgoedwigo ar y gweill (derw, ac ati)



Dyn ni'n cael ein rhybuddio am berygl mosgitos. Erbyn canol dydd mae'r haul yn tywynnu ond mae'n mynd yn gymylog wedyn. Roedd diwrnod twristiaid ddoe wedi gwneud lles i ni gan nad oedden ni wedi gwneud llawer o feicio yn n i n a s Toulouse.



Hen olchdy yw hwn yr ochr arall i'r gamlas; fe'i defnyddiwyd gan wragedd golchi i lanhau ddillad. Wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn, mae wedi'i orchuddio â tho teils. Wrth llifddor Gardouch, awn ni tuag at bentref bychan Montclar-Lauragais. Sylwn ni ar y meysydd niferus o wenith, yd a blodau'r haul. Mae'r ffordd erbyn hyn yn ysgafn ac yn gymharol wastad, ar wahân i'r ddringfa 2 km i gyfeiriad y pentref. Dyn ni'n cyrraedd tŷ ein gwesteiwr, hen fferm ynysig gyda phrif ystafell fawr wedi'i hadnewyddu, ac mae trapîs yna! O dan yr adeilad mae ystafell mawr a allai fod wedi cael ei ddefnyddio ar un adeg i storio offer neu fwyd.

Mae Justine yn cyrraedd o'r ysgol gyda'i 2 o blant ac mae Victor yn ymuno â ni ar ôl penwythnos o ymarfer hwylio ym Marseille!

Ar ôl cawod gynnes croesawgar, maen nhw'n cynnig pryd o fwyd i ni cyn rhoi eu plant i'r gwely. Mae hi 'n gweithio mewn gwasanaeth rheoli ynni yn lleol, mae e'n gweithio yng nghwmni Airbus, un o gwmnïau mwyaf y rhanbarth. Cawsom

amser difyr a daw'r noson i ben gydag arddangosiad o ystumiau gymnasteg ar y trapîs.



Mae Justine yn ymarfer yn rheolaidd.

Gadewch i mi esbonio'r lluniau uchod. Yn y gyntaf ar y chwith yw plant Justine. Yn yr ail mae Mikeal yn dangos ei



ddoniau - tydy o'n gwneud yn da!! - Rob

O Montclar-Lauragais i Caux-et-Sauzens)

Dydd Iau 13/06: 63 km

Croeswn ni dirwedd fryniog, yna dringwn ni ychydig i weld copa'r Montagne Noire, tarddle y Canal du Midi. Dyma ni ym mhedwerydd rhanbarth ein hantur sef Aude. Yn Castelnaudary, mae arwyddion twristiaid yn esbonio i ni am y gamlas a gloddiwyd rhwng 1666 a 1681 diolch i dyfalbarhad Pierre Paul Riquet, gyda chefnogaeth y Gweinidog Colbert. Ystyriwyd y gampwaith hwn y pwysicaf o'r 17eg ganrif (Louis 14) ar ôl Palas Versailles!

Diolch i argae St Ferréol a'r camlesi, mae'r dŵr yn cael ei fwyd i bwynt uchaf Naurouze. Oddi yno, mae'r dŵr yn llifo naill ai i Gefnfor yr Iwerydd neu i Fôr y Canoldir Mae'r gamlas hon yn ymestyn dros 240 km, mae ganddi 63 o llifddor, 126 o bontydd, 55 o draphont ddŵr a 7 pont-camlas. Cyflogwyd 12,000 o weithwyr i gloddio â llaw a rhaw y 7 miliwn metr ciwbig o bridd a rwbel o Toulouse i'r llyn Thau ger Sète.

O 1857, adeiladwyd camlas Garonne sy'n cysylltu Toulouse â Bordeaux ac yn mesur 193 km o hyd. Roedd y gamlas hon yn caniatáu i longau fynd o Gefnfor yr Iwerydd i Fôr y Canoldir ac wrth wneud hynny osgoi Penrhyn Iberia. Ond yng nghanol yr 20fed ganrif roedd y rheilffordd wedi cymryd drosodd. Heddiw defnyddir y gamlas ar gyfer dyfrhau tir ac atyniad thwristiaeth (100,000 o deithwyr y flwyddyn, yn ogystal â cherddwyr neu feicwyr!).

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Yn Castelnaudary, dyn ni'n ymweld ag eglwys golegol St Michel o'r 13eg ganrif, yna melin wynt



Cugarel (17eg) wedi'i adeiladu o garreg leol. Mae'r ddinas yn enwog am cassoulet. Yn ystod y Rhyfel Can Mlynedd, mae'r chwedl yn dweud roedd y ddinas dan warchae gan y Saeson ond wedi'i goroesi gan stiwr wedi'i wneud o gig a ffa sych, roedd y boblogaeth wedi ennill yn erbyn y goresgynwyr a daeth Cassoulet yn bryd o fwyd

boblogaidd dros ben!

Er gwaethaf ychydig km o ddringo, dyn ni yn cyrraedd ar gyflymder da i bentref bach Caux a Sauzens. Ar y ffordd dyn ni'n cwrdd â cherddwyr lleol. Wedyn mae Lucile a Clément yn ein croesawu. Mae hi'n soffrolegydd, a mae e'n beiriannydd sy'n gyfrifol am ansawdd dŵr; mae'r plant yn gofyn am gawl i ginio ac yn ei fwynhau! Diolch o waelod galon!

Hanner can mlynedd

gan Sara Jones



Wel, dyma ni, y rhan olaf o'm hanes yn y wlad brydferth hon.

Dechreuais i ddysgu Cymraeg gyda fy mhiant yn yr wythdegau. Pan ddechreuodd fy mab ieuengaf yn yr ysgol penderfynais fynd yn ôl i weithio yn yr ysbyty. Fel mae'n digwydd roeddwn i'n gallu cael swydd yn y fferyllfa yn ysbyty Maelor Wrecsam. Gweithiais yno am dair blynedd ond roedd yn anodd iawn dod o hyd i rywun i ofalu am y plant ar ôl ysgol tan amser te. Nid oedd unrhyw glybiau ar ôl ysgol y dyddiau hynny. Felly penderfynais adael yr ysbyty a dechrau gradd dysgu yng ngholeg Cartrefle Wrecsam. Graddiais fel athrawes ysgol gynradd

ar ôl pedair blynedd a gweithiais yn ysgolion Wrecsam fel athrawes gyflenwi.

Erbyn hyn roedd y plant yn yr ysgol uwchradd a doedd dim rhaid i mi boeni am ofal plant. Felly penderfynais newid swydd eto gan fy mod yn gallu gweithio ar unrhyw adeg i siwtio fi. Dechreuais weithio fel gweithiwr gofal yn y gymuned a chwrdd â llawer o bobl hyfryd, roedd y swydd yn amrywiol ac yn ddiddorol. Roedd hi'n amser symud tŷ nawr a symudon ni i dŷ deulawr yn Johnstown. Eto, roedd hi'n hen dŷ ac angen llawer o waith i'w wneud.

Parheais i weithio am saith mlynedd, tra'n gwneud gwaith i wella'r tŷ ac ymddeolais yn 60 oed.

Roeddwn i'n rhydd nawr i ddysgu Cymraeg o'r diwedd, felly cofrestrais ar gwrs Cymraeg yng ngholeg Cambria. Roeddwn yn llwyddiannus yn yr arholiad canolradd Cymraeg yn 2018. Yn fuan wedyn newidiodd ein bywydau yn sydyn oherwydd y pandemig covid19. Gyda hynny daeth Zoom ar y cyfrifiadur.

Erbyn hyn roedd Frank wedi ymddeol a'n bechgyn ni wedi priodi a chael plant eu hunain. Dwi mor hapus bod ein hwyrion ni hefyd yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol.

Er fy mod wedi ymddeol rwy'n hynod o brysur gyda gwaith tŷ, garddio, digwyddiadau codi arian i'r eglwys a gofalu am wyrion. Dwi'n ymlacio trwy ddarllen Cymraeg, gwrandao ar radio Cymru, gwylio S4C ac ysgrifennu yn Gymraeg. Daeth fy ŵyr â'r Nene o'r ysgol ac roedd gennyf ddiddordeb mewn darllen newyddion lleol.

Roeddwn i eisiau cyfrannu at y gymuned Cymraeg lleol felly cysylltais â golygydd Nene. Nes i gyfarfod Gwynne a Christine Williams dros baned ac roedden nhw'n garedig iawn a mi ddaethom i adnabod ein gilydd. Ymhellach cynigiodd Gwynne colofn i mi gyfrannu'n gyson i'r cylchgrawn lleol. Yn 2024 gan fy mod wedi cwblhau 50 mlynedd yn byw yn y wlad hardd hon penderfynais ysgrifennu fy hanes o ddod i fyw yma. Felly dyma fi ar ddiwedd fy stori, hyd yn hyn, â'r peth pwysicaf yw'r bobl o Gymru dw i wedi cyfarfod dros y blynyddoedd ac yn fy helpu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Ysgrifennaf am hynny nes ymlaen. Diolch am ddarllen.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr Rhaglen 2025

10 Chwefror (Zoom – 7 30 yh)

Natalie Gwynedd.

Christopher Williams o Faesteg, Ei Fywyd
a'i Baentiadau *Christopher Williams from
Maesteg, His Life and his Paintings*

10 Mawrth

Y Tair Pedol, Cefn Cribwr (ac ar Zoom – 7
30yh)

Mike Clubb Tanchwa Parc Slip 1892 *The
1892 Parc Slip Explosion*

12 Mai

Ymweliad – 7 ooyh Richard Howe

Ymweliad â Phorthcawl. Hanes y
Porthladd a'r Rheilffyrdd ym Mhorthcawl
*History of the Port and Railways in
Porthcawl*

09 Mehefin

(Ymweliad – 7 ooyh) Geraint Thomas
Ymweliad â Chastell Coety Owain Glyndŵr
a Chastell Coety *Owain Glyndŵr and
Coity Castle*

08 Medi

Y Tair Pedol, Cefn Cribwr (ac ar Zoom – 7
30yh) Gwyn Roberts Tryweryn

13 Hydref

(Zoom – 7 30yh) Athro M Wynn Thomas
Deuddeg o Emynau Gwerthfawr Cymru
*Twelve of the Most Valuable Welsh
Hymns*

10 Tachwedd

(Zoom – 7.30) Dr Paul O'Leary 'A Oes
Heddwch?' Mudiadau Protest yn Hanes
Modern Cymru
*'Is There Peace?' Protest Movements in
Modern Welsh History*

08 Rhagfyr

(Y Tair Pedol, Cefn Cribwr) – 7 ooyh Parti
Nadolig *Christmas Party*

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Ionawr 2025 – Siân Rhiannon Williams yn siarad am 'Deiseb Heddwch Menywod Cymru'

Adolygiad gan Nesta Humphreys

Hanesydd ac addysgydd ydy Siân sy'n arbenigo ar hanes menywod Cymru. Mae hi wedi ysgrifennu sawl llyfr a chyfrannu i raglenni teledu a radio. Yn ddiweddar mae hi wedi cyfrannu i'r llyfr dwyieithog 'Yr Apêl: Hanes Rhyfeddol Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923-1924' (Y Lolfa 2023) a hynny oedd pwnc ei sgwrs.

Efallai bod rhai ohonoch chi'n gyfarwydd â'r stori am y ddeiseb a gafodd ei llofnodi gan 390,296 o fenywod yng Nghymru yn 1923/24, ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf wrth gwrs. Cafodd y rhyfel effaith mawr ar lawer o deuluoedd yng Nghymru (a llawer o wledydd eraill) ac roedd pobl eisiau heddwch a diwedd i ryfeloedd. Dyna oedd pwrpas Cynghair y Cenhedloedd a sefydlwyd yn 1920, er nad oedd yr Unol Daleithiau yn aelod. Nod y ddeiseb oedd pwysleisio cryfder y teimlad dros heddwch ac annog llwyddiant Cynghair y Cenhedloedd.

Roedd rhywun yn y Deml Heddwch Caerdydd yn gwneud gwaith ymchwil yn 2018 ar gyfer canmlwyddiant diwedd y rhyfel a darganfuwyd llyfr am y ddeiseb. Dwedodd y llyfr bod Yr Apêl, oddi wrth ferched Cymru a Mynwy, wedi ei anelu at ferched Unol Daleithiau'r America. Ble mae'r ddeiseb nawr a beth yw ei hanes?

Crewyd cist dderw fawr ar gyfer y deiseb ac yn 1924 aeth tair menyw (Annie Hughes Griffiths, Mary Ellis ac Eluned Prys) i'r Unol Daleithiau gyda'r gist. Ro'n nhw wedi cwrdd â'r Arlywydd, Calvin Coolidge, ond doedd e ddim yn frwdfrydig a wnaeth yr Unol Daleithiau erioed ymuno â Chynghair y Cenhedloedd. Cytunodd e gallai'r ddeiseb gael ei storio yn Amgueddfa'r Smithsonian yn Washington. Sut bynnag, roedd taith y fenywod o Gymru a'r ddeiseb yn llwyddiannus iawn i ddylanwadu miloedd o fenywod Americanaidd i ymgyrchu dros heddwch.

Daeth y gist fawr nôl i Gymru yn 1923 ac mae'r ddeiseb yn ddiogel yn y Llyfrgell

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Genedlaethol yn Aberystwyth. Cafodd y ddeiseb ei digido ac mae ar gael ar wefan y Llyfrgell. Mae gwirfoddolwyr wedi dechrau trawsgrifio enwau a chyfeiriadau'r llofnodion.

Dangosodd Siân i ni rhai o'r cofnodion ar gyfer ein hardal ni ac oedd yn ddiddorol iawn. Hefyd, siaradodd Siân am y trefnwyr lleol a chasglodd bron 400,000 o lofnodion dros Gymru. Tasg enfawr oedd hi ac mae rhaid i ni dalu teyrnged i'r bobl a chafodd syniad y ddeiseb a'r holl drefnwyr a chasglodd gymaint o lofnodion mewn amser byr. Dwedodd Siân fod unrhyw fenyw dros 18 mlwydd oed yn gallu'r arwyddo'r ddeiseb a oedd yn gam blaengar yng nghyd-destun hawliau menywod yn y 1920au.

Mae llawer mwy o wybodaeth yn y llyfr, 'Yr Apêl', ac ar y wefan ac maen nhw'n chwilio am fwy o wirfoddolwyr i helpu trawsgrifio'r ddeiseb.

Dyma gwpl o ddolennau.

<https://www.wcia.org.uk/cy/treftadaeth-heddwch/deiseb-menywod/>

<https://deisebheddwch.llyfrgell.cymru>

Diolch yn fawr iawn i Siân am sgwrs mor ddiddorol.

Digwyddiad nesaf - Nos Lun, 10 Chwefror – Natalie Gwynedd yn siarad am 'Christopher Williams o Faesteg, ei Fywyd a'i Baentiadau'. Os bydd diddordeb gyda chi, rhowch wybod i mi, nestahumphreys@btinternet.com

Mae Enid Connick o'r Pwyllgor wedi trefnu'r Rhaglen 2025 sydd ar Facebook. Mae aelodaeth ar gyfer 2025 ar gael - £10 yr un am y flwyddyn – ac os oes diddordeb gyda chi, cysylltwch â Nesta.

Mae tudalen Facebook gyda'r Gymdeithas a dyma'r ddolen.

https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr/?locale=en_GB

Geirfa

Ein cyngerdd carolau

Yn awyddus - keen
Effeithiol - effective
Parhaol - permanent
Rhwystredig - frustrating
Datrys - to solve

Cadarnhaol - positive
Nod - the aim
Diddanu - to entertain
Hyderys - confident
Swyno - to enchant
Cyfeilio - to accompany (musically)
Cynulleidfa - congregation
Meistrolgar - masterful

GM Notebooks

O bob cwr - from all corners
Rhwystrau - obstructions
Amgylchedd - environment
Hygyrch - accessible
Datblygedig - developed

Carolyn Evans

Porthladd - port

Sally Williams

Dim gobaith caneri - no chance
Rhy erchyll - too dreadful

Yna ac y ôl

Teyrnas - kingdom
Penwynion - the Pennines
Toriad - a break
Cyffordd - junction
Caer - Chester

Grŵp dysgwyr Bromyard

Swydd Henffordd - Herefordshire
Swydd Caerwrangon - Worcestershire
Moelfryn - Malvern
Cadarnhaol - positive

Croeso Cai

Yn gyfan gwbl - completely
Rhydlyd - rusty
Dymuniad - wish
Ailgysylltu - to reconnect
Cydganu - - to sing along (with)
Emyn - hymn
Cyflwyno - to introduce
Gwerin - folk
Treftadaeth - heritage
Hedyn - a seed

Y Ceffyl Pren

Blaenorol - previous
Gwledig - rural

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cynnal - to hold (an event)
Yn y bôn - basically
Delw - effigy
Cod moesol - moral code
Ysgol - ladder (also school)
Gorymdeithio - to go in procession
Ar goedd - openly
Rhigwm - rhyme, verse
Llys ffug - fake court
Tramgwyddwr - transgressor
Godineb - adultery
Noethlymun - naked
Tystion - witnesses
Helbul - bother

Coginio

Amrywiol - varied
Traddodiadol - traditional
Cyfoes - contemporary
Danadl poethion - nettles
Dant y llew - dandelion
Sinsir - ginger
Burum - yeast
Llysieuwyr - vegetarians

Y Fari Lwyd (1)

Elusen leol - local charity
Ar garreg drws - on the doorstep
Rhigwm - verse
Y Wladfa - Patagonia
Yr Ariannin - Argentina
Corau Meibion - male voice choirs

Y Fari Lwyd (2)

Penglog - skull
Lliain gwyn - white sheet
Brawychus - fearful
Trigolion - residents
Rhoi'r ffidl yn y to - to give up
Diddanu - to entertain
Gwobrwyo - to reward
Yn ei hanterth - at its peak
Ymddygiad - behaviour
Meddwdod - drunkenness
Dylanwad - influence

Geiriadur yn fy mhoced

Lawr-lwytho - to download
Cyfateb - equivalent
Odli - to rhyme
Crynodeb - summary

Ymadroddion - sayings
Canllaw - helper

BBC Cymru Wales

Tu ôl i'r llen - behind the scenes
Gwelliannau - improvements
Hanfodol - essential
Gwiriadau diogelwch - safety checks
Mynedfa - entrance
Tywyswr - guide
Cynaliadwy - sustainable
Blaengar - advanced
Realiti estynedig - extended reality
Atsain - echo
Effeithiau sain - sound effects
Haen - layer
Cymhleth - complicated

Byd Natur

Colldail - deciduous
Brodorol - native
Coedlannu - to coppice
Boncyff - trunk, base
Sodro - to fasten
Toi - to roof (a house)
Gwellt - straw
Bioamrywiaeth - biodiversity
Gwryw - masculine
Deillio - to come from, source
Llysrith - embryo (in the plant world)
Maeth - nourishment
Cyferbyniad - contrast
Ungell - single cell
Gronyn o lwch - a grain of dust
Llugoer - tepid
Llaith - damp
Epilio - to propagate
Gwladychu - to colonise
Goroesi - to survive

Taith beicio

Beddrod - tomb
Planwydden - plane tree
Ailgoedwigo - reforestation
Golchdy - wash-house
Gorchuddio - to cover
Llifddor - canal lock
Gwenith - wheat
Ûd - corn
Adnewyddu - to restore
Arddangosiad - exhibition

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tarddle - source

Dyfalbarhad - persistence

Cefnfor yr Iwerydd - Atlantic Ocean

Môr y Ganoldir - Mediterranean Sea

Traphont ddŵr - aqueduct

Dan warchae - under siege

Soffroleg - a form of creating relaxation

Hanner can mlynedd

Athrawes gyflenwi - supply teacher

Tŷ deulawr - two-floored house

Nene - her local Welsh newspaper

Yn gyson - regularly

Cymdeithas Hanes

Addysgydd - teacher

Arbenigo - to specialise

Deiseb - petition

Cynghrair y Cenhedloed - League of Nations

Y Deml Heddwch - The Temple of Peace

Canmlwyddiant - centenary

Cist derw - oak chest

Dylanwadu - to influence

Ymgyrchu - to campaign

Trawsgrifio - to transcribe

Llofnodion - signatures

Teyrnged - tribute

Cam blaengar - prominent step

Cyd-destyn - context

Llefydd ble mae grwpiau

Cymraeg ar gael

Aberaeron

Coffi a chlone Gwesty'r Castell, bob bore Mawrth 10:30- 12. Am fwy o wybodaeth plis cysylltwch gyda Arwel - ja.jones50@btinternet.com

Abergwaun, Sir Benfro.

Cyfarfod yn Janes Woolshop, High Street, Abergwaun **SA65 9AR** bob dydd Llun rhwng 10.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb!

Clonc Mannings

Ar gyfer Lefel Uwch a'r Cymry. Cymraeg yw iaith y clonc. Caffi Mannings, Abergwaun. Bob prynhawn dydd Gwener. 1.30-3.30.

Abertawe

Dewch i Sgwrsio yn Llyfrgell Treforys, 13A Pentrepoeth Road, Treforys. SA6 6AA. Bob dydd Iau rhwng 10.00 a 12.00

Dewch am Sgwrs. Pob prynhawn Gwener rhwng 2.00 a 4.00 yng nghaffi Urban Kitchen, 37 Orchard Street, Swansea. SA1 5AJ Croeso i bawb. Am fwy o wybodaeth: Robin Campbell: zig_zag64@hotmail.com

Cwm Ivy, Bro Gŵyr - Shw mae dydd Iau Caffi Cwm Ivy Llanmadoc. SA3 1DJ Pob dydd Iau am 11yb.

Newton, Bro Gŵyr: Yn Neuadd y plwyf, St Peter's Newton SA3 4RA bob dydd Mercher o 12.30 tan 2.30. Dewch i siarad Cymraeg. vanessabassett@hotmail.com

Southgate, Bro Gŵyr Three Cliffs Cafe SA3 2DH - pob prawn dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw bobwennol@ntlworld.com

Birmingham

Cwrdd y cyntaf dydd Llun a'r trydydd dydd Mawrth bob mis. Cherry Reds (cafe bar), John Bright Street, Birmingham, B1 1Bj janine310@btinternet.com

Facebook - Birmingham Welsh Meet Up

Bromyard

Pob dydd Mawrth am 11.00 yn y Topsy Toad 43 High Street, Bromyard, HR7 4AE

Bryn Buga. Pob dydd Iau am 10yb tan 11.30 yn Llyfrgell Bryn Buga. Cysylltwch a: Mike Brown - 07801 348151 neu post@menterbgm.cymru am fwy o fanylion neu i ymuno'r Grwp Whatsapp

Caerdydd Clonc Bore Llun. Yr Awr Hapus yn cyfarfod yn yr Hollybush Coryton, 10.45-11.45. Yna nol ar Zoom unwaith eto... Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu, @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerdydd Clonc dydd Iau Castell Caerdydd, yn cyfarfod yn y Caffi rhwng 1 a 2 o'r gloch ar ddydd Iau. Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

De Ddwyrain Cernyw - y bore Gwener olaf yn y mis, am 10:30 yb am awr neu awr a hanner; fel arfer yn y caffi ym Mhortwrinkle - The Jolly Roger, neu yn Looe yn Island View Cafe (ar ôl y Pasg). Ond - cysylltwch â Lillian am fanylion yn gyntaf. lillian@environomics.co.uk

Dwyfor

Pwllheli cyfarfod ar ddydd Sadwrn cyntaf y mis am 10.30 ym Mlas Heli LL53 5YT

Llanystumdwy cyfarfod ar y 4ed nos Fercher y mis am 19.30 yn Y Plu **LL52 0SH**

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Nefyn cyfarfod yr 2il nos Lun y mis am 19.30 yn Yr Heliwr LL53 6HD

Porthmadog cyfarfod ar y 3ydd dydd Sadwrn y mis am 10.30 yn y Ganolfan Hamdden (Byw'n Iach Glaslyn), Stryd y Llan, Porthmadog, LL49 9HW.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Martin:

m.croydon@bangor.ac.uk

www.facebook.com/HwbCymraegDwyfor

Llanelli Cyfarfod yn Nhafarn y Sessile Oak am 7.00 tan 8.30 bob nos Lun. Croeso i bawb.

clwbclecsllanelli@gmail.com

Oxford/Rhydychen 'Space for Reading', Weston Library, Broad Street, Oxford, OX1 3BG. Pob dydd Gwener amser cinio, 12:00 tan 13:00 Cysylltwch â John Williams jwilliams718@btopenworld.com

Pontypŵl cyfarfod yn Sharon Full Gospel Church, 96, Heol Osborne, Pontypŵl NP4 6LU

Porth, Y Rhondda Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road. Cyfarfod yn y lolfaf goffi bob dydd Iau am 10.-12 y.b. Dydd Gwener Gwersi Cymraeg anffurfiol 10.30-12. Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

Southerndown/Aberogwr.

Mae'r grŵp yn cyfarfod ddydd Iau rhwng 10.00yb - 12.00yp yn "Crafts by the Sea", Church Close, Aberogwr. Y cysylltiad yw Linda Williams 07783 415754.

St Albans, Hertfordshire. Cyfarfod ail ddydd Sadwrn yng nghaffi canolfan arddio Notcutts, Hatfield Road, St Albans, AL4 0HN o 10.30 i tua hanner dydd.

Ebost: amandaferon@outlook.com

Saltney Ferry cyfarfod am 11.00 yn Yr Hen Gaffi, Saltney Ferry CH4 0BJ pob dydd Mercher a phob dydd Sadwrn. cysylltwch â Erica @mackie.co.uk

Thornbury, Glos

Held on the last Tuesday of each month from 14:30 – around 16:00 in Hawkes House, St Mary's shopping precinct, Thornbury BS35 2AB. I call the group 'Cornel y Siaradwyr' and there are usually between 8 and 12 of us present, a mix of 1st language speakers and learners.

Contact: britpgi@gmail.com

Trefdraeth, Sir Benfro. Cwrdd bob bore dydd Mercher am 10.30 y.b. yng Nghaffi Blas at Fronlas yn Stryd y Farchnad. **SA42 0PH.** Croeso cynnes i bawb.

Trefynwy Clwb Clonc. Pob dydd Llun yn Coffi #1 yn y dref am 1-2pm Croeso i bawb **NP25 3PS**

Treffynnon Dydd Gwener cyntaf bob mis am 2.00 yn y llyfrgell. Croeso cynnes i bawb. Cysylltwch: 07864 149078

Y Fenni Dydd Llun am 10.30-11.30 - Grŵp Bore Coffi - Y Trading Post, Neville Street, Y Fenni, NP7 5AA - Trefnydd: Chris Chetwynd - e-bost Chris.Chetwynd@coleggwent.ac.uk

Y Fenni Dydd Mercher am 13.00 - 14.00 - Clwb Coffi Y Fenni Newydd (Grŵp sgwrsio anffurfiol) - Y Trading Post fel uchod Cysylltwch â post@menterbgtm.cymru Gall dysgwyr ofyn i ymuno â'r grŵp Whatsapp am unrhyw wybodaeth bellach

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. **SY3 7NN** ar yr ail a'r pedwerydd dydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - bryro@btinternet.com neu ar 07985919358

'COAL AND COMMUNITY IN WALES'

gan Richard Williams ac Amanda Powell

Cyhoeddwyd y llyfr Saesneg hwn yn 2024 (Y Lolfaf) i nodi 40 mlynedd ers dechrau streic y glowyr, 1984/85.

Ffotograffydd y wasg ydy Richard a newyddiadurwr ydy Amanda. Rhyngddyn nhw mae wedi creu hanes gweledol ardderchog o gyfnod tyngedfennol yn hanes y diwydiant glo. Mae'r llyfr yn canolbwyntio ar gymoedd Ogwr, Llynfi a Garw ac mae'n adlewyrchu gwrthdaro, caledi ac undod y cyfnod.

Amgueddfa Cymru – Arddangosfa 'Streic! 84-85' tan 27 Ebrill 2025

Mae'r arddangosfa yn cynnwys llawer o luniau'r llyfr a dyma'r ddolen i'r Amgueddfa.

Rhaid i chi archebu tocynnau o flaen llaw.

<https://museum.wales/cardiff/whatson/12346/Streic-84-85-Strike>

Nesta Humphreys

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Ionawr 2025

Y De a'r Canolbarth

Mae pob taith yn dechrau am 10.30

Dim cŵn os gwelwch yn dda

Teithiau'n gorffen tua 3.00

04/01/25 Ardal Ynysgynwraidd (Skenfrith) Cylchdaith tua 7 milltir o Gastell Ynysgynwraidd, dilyn Afon Mynwy heibio hen eglwys Llanrothal ac yn ôl drwy goedwig fytholwyrdd. Gorffen gyda dringfa serth yn ôl i'r pentref. **Man Cyfarfod** Maes Parcio Castell Ynysgynwraidd **NP7 8UH SO457203**
Arweinydd Mark Humphries 07972 193539

11/01/25 Gwahoddiad i ymuno â theithiau'r Wennol yn ardal Pwll Du ar Benrhyn Gŵyr a chael hanes y bae anghysbell yma a dod i adnabod dysgwyr brwd Abertawe. Tua 4-5 milltir, tipyn o ddringo. **Man Cyfarfod:** Maes Parcio'r Ymddiriedolaeth yn Southgate **SA3 2DH SS 554874**. **Arweinydd** Rob Evans 07880 628653

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



IOEDOLION
FOR ADULTS

SESIYNAU WYTHNOSOL WEEKLY SESSIONS

menter@broogwr.org
0777 4032624



awen

Llyfrgelloedd
Libraries

BORE COFFI PORTHCAWL
PORTHCAWL COFFEE MORNING
@YMCA PORTHCAWL
11:00 - 12:00YP/PM

LLUN
MONDAY

COFFI A CHLONC
COFFEE AND A CHAT
@AR-LEIN/ONLINE
1:30YP/PM

LLUN
MONDAY

BORE COFFI PEN-Y-BONT
BRIDGEND COFFEE MORNING
@FRESCO CAFE, PEN-Y-BONT
10:00 - 11:00 YB/AM

MAWRTH
TUESDAY

PANED A SGWRS
CUPPA AND A CHAT
@LLYFRGELL PORTHCAWL LIBRARY
6:30 - 7:30 YH/PM

IAU
THURSDAY

BORE COFFI MAESTEG
MAESTEG COFFEE MORNING
@LLYFRGELL MAESTEG LIBRARY
11:00 - 12:00 YP/PM

GWENER
FRIDAY

CAM YMLAEN
GRŴP CERDDDED A SGWRSIO CYMRAEG
WELSH WALK AND TALK GRWP
@PAFILIWN Y GRAND, PORTHCAWL
1:30 YP/PM

GWENER
FRIDAY

PANED PRYNHAWN
AFTERNOON CUPPA
@LLYFRGELL PENCOED LIBRARY
2:00 - 3:00 YP/PM

GWENER
FRIDAY

BORE COFFI
COFFEE MORNING
@NEUADD Y TABERNACL, PORTHCAWL
10:30 YB/AM
DYDD SADWRN CYNTAF Y MIS
FIRST SATURDAY OF THE MONTH

SADWRN
SATURDAY

PANED PRYNHAWN
AFTERNOON CUPPA
@LLYFRGELL Y PIL/PYLE LIBRARY
1:00 - 2:00 YP/PM

SADWRN
SATURDAY

MENTER BRO OGWR
DEFNYDDIWCH EICH CYMRAEG - USE IT OR LOSE IT!

